*Yn Gosod y Llwyfan I'r Celfyddydau Perfformio yng Nghymru*

*Setting the Stage for the Performing Arts in Wales*

**Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru (llawrydd)**

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru |
| **Yn atebol i'r** | Cyfarwyddwr (Creu Cymru) |
| **Ffi** | £250 y diwrnod, a hyd at £600 y flwyddyn ar gyfer costau teithio a llety. |
| **Oriau gwaith** | Dau ddiwrnod y mis am 12 mis o fis Chwefror 2025.<br><br>Bydd gofyn teithio o fewn y Deyrnas Unedig. |
| **Lleoliad gwaith** | Nid oes gan Creu Cymru swyddfeydd parhaol. Eich prif weithle fydd eich cartref, a byddwch hefyd yn treulio amser yn gweithio yn lleoliadau a swyddfeydd ein haelodau. |
| **Cyfnod rhybudd** | Un mis o'r naill ochr a'r llall |
| **Cyfle cyfartal** | Disgwylir y bydd deiliad y swydd yn gweithredu yn unol ag arferion cyfle cyfartal y sefydliad. |

**Rydym yn annog ceisiadau gan bobl o liw, pobl LHDTC+ (rydym yn sefydliad traws-gynhwysol), pobl fyddar, anabl a niwrowahanol, a phobl sydd wedi'u hallgáu neu'u hymyleiddio mewn ffyrdd eraill.**

Bydd Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru yn gefnogwr gwybodus a brwd o ymarfer theatr cynaliadwy, a bydd yn gallu cynyddu'r niferoedd sy'n ymgysylltu â Llyfr Gwyrdd y Theatr ac yn ymrwymo iddo, a chefnogi rhwydweithiau o ddefnyddwyr ledled Cymru.

Drwy gydweithio â Bwrdd, aelodaeth a Chyfarwyddwr Creu Cymru, bydd Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru yn chwarae rôl hollbwysig o ran hyrwyddo Llyfr Gwyrdd y Theatr ac yn rhannu'r dysgu drwy weithredu fel eiriolwr amlwg a rhagweithiol dros gynaliadwyedd yn sector diwylliannol Cymru. Bydd gwaith yr Hyrwyddwr yn cynorthwyo i gynyddu ymwybyddiaeth o Lyfr Gwyrdd y Theatr, ymgysylltiad ag ef, a defnydd o'i egwyddorion ar draws theatrau a chwmnïau cynhyrchu.
Bydd yr Hyrwyddwr yn gweithredu fel llefarydd, gan bontio'r bwlch rhwng tîm y prosiect a'r sector diwylliannol a sicrhau bod cyfranogwyr yn deall egwyddorion Llyfr Gwyrdd y Theatr, yn eu parchu, ac yn ymddiried ynddynt. Bydd hefyd yn cydweithio â thîm Llyfr Gwyrdd y Theatr y DU, gan fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y gofyn i gynorthwyo i gyfnewid gwybodaeth ac i sicrhau bod gweithgareddau ehangach sy'n ymwneud â Llyfr Gwyrdd y Theatr yn gyson â'i gilydd ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Menter sydd ar waith ar draws y sector yw Llyfr Gwyrdd y Theatr, a'i nod yw cynorthwyo theatrau ac ymarferwyr theatr i sicrhau bod pob agwedd ar eu gwaith yn fwy amgylcheddol gynaliadwy, a hynny ar draws cynyrchiadau, adeiladau a gweithrediadau. Mae'n adnodd ar-lein ac yn rhwydwaith o ymarferwyr theatr, ar draws pob math o rôl, sydd wedi ymrwymo i feithrin arferion gorau ym maes theatr amgylcheddol gynaliadwy ac i hyrwyddo defnydd o Lyfr Gwyrdd y Theatr yn ehangach.

**YNGHYLCH CREU CYMRU**
Mae Creu Cymru yn hyrwyddo sector celfyddydau perfformio bywiog Cymru, gan gysylltu pobl, cynulleidfaoedd a chymunedau.

Mae ein haelodau yn ffurfio rhwydwaith cydweithredol a chanddo lais cryf ac unedig yr ydym yn ei ddefnyddio i eirioli ar eu rhan gerbron cyrff llywodraethu cyhoeddus, gan ddylanwadu arnynt i wireddu newid cadarnhaol a sicrhau bod gan y diwydiant gynrychiolaeth hanfodol.

Mae Creu Cymru yn cefnogi lleoliadau, cwmnïau ac unigolion drwy strategaethau twf blaengar. Mae ein cyfleoedd Ewch i Weld, ein hyfforddiant arbenigol a'n pecyn adnoddau yn meithrin sgiliau a phrofiad cyfunol ein gweithluoedd creadigol. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyn a raglennir ar draws y sector yn parhau i esblygu, gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb, perthnasedd a chynhwysiant ar gyfer cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol.

**Y swydd**
**Hyfforddi a chynorthwyo**
- Llunio a chydgysylltu hyfforddiant y gellir ei ddarparu wyneb yn wyneb neu ar-lein o ran tair adran Llyfr Gwyrdd y Theatr (Cynyrchiadau, Gweithrediadau, ac Adeiladau) ar gyfer aelodau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys sesiynau Cymraeg / dwyieithog.
- Darparu sesiynau hyfforddi i aelodau Creu Cymru (o leiaf bedair sesiwn y flwyddyn).
- Cydgysylltu sesiynau dysgu rhwng cymheiriaid yn y sector i roi cyfle iddynt rannu'r hyn sy'n gweithio yn eu sefydliadau nhw a'r heriau y maent yn eu hwynebu, a mynd ati i ddatrys problemau ar y cyd.
- Darparu cymorth ad hoc i aelodau o ran defnyddio Llyfr Gwyrdd y Theatr.

**Cydgysylltu digwyddiadau**

- Cydgysylltu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o Lyfr Gwyrdd y Theatr ledled Cymru (o leiaf ddau ddigwyddiad y flwyddyn).
- Prosesu archebion i ddod i’n digwyddiadau a’n gweithgareddau hyfforddi, cadarnhau’r archebion hynny, ac anfonebu.
- Cyd-drafod â siaradwyr/hyfforddwyr i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid ac i ddarparu cymorth iddynt.

**Y wasg, eiriolaeth a marchnata**

- Cydweithio â’r Cyfarwyddwr i ysgrifennu datganiadau i’r wasg i godi ymwybyddiaeth o’r hyn y mae’r sector yn ei wneud i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd ac i ddefnyddio Llyfr Gwyrdd y Theatr.
- Darparu postiadau blog a gwybodaeth ar gyfer cylchlythyrau i’r aelodau ynghylch y prosiect.
- Creu postiadau cyfryngau cymdeithasol sy’n ymwneud â’r prosiect a’r hyn y mae aelodau wedi’i gyflawni yn y maes hwn.
- Cyfathrebu’n rheolaidd ac yn effeithiol â’r aelodau, ar y cyd â’r Cyfarwyddwr.

**Cyllid**

- Cyfrannu at sefydlogrwydd ariannol drwy weithredu yn unol â chyllideb benodedig y prosiect, gan fonitro incwm a gwariant ar sail y targedau a bennwyd.

**Codi arian**

- Ar y cyd â’r Cyfarwyddwr a’r Bwrdd, cynorthwyo i baratoi adroddiadau monitro a gwerthuso a’u cyflwyno i arianwyr.
- Cadw cofnodion effeithlon a chynhwysfawr ynghylch prosiectau i sicrhau bod modd eu monitro a’u gwerthuso’n effeithiol.

**Arall**

- Cyd-drafod â thîm Llyfr Gwyrdd y Theatr (gan gynnwys Cyfarwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr) o ran unrhyw ddiweddariadau, datblygiadau, digwyddiadau, ac ati. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â Thîm Llyfr Gwyrdd y Theatr bob chwe wythnos i gynorthwyo i gyfnewid gwybodaeth ac i sicrhau cysondeb.
- Ymlynu wrth bolisïau, arferion a gweithdrefnau’r cwmni y cytunwyd arnynt, gan gynnwys polisïau Iechyd a Diogelwch, Cyfle Cyfartal a Diogelu, a systemau swyddfa.
- Cadw materion personél yn gyfrinachol a rhoi sylw o hyd i hyrwyddo a chynnal enw da’r Cwmni a’i holl aelodau.

**Manyleb y person: Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru (llawrydd)**

Bydd **Hyrwyddwr Llyfr Gwyrdd y Theatr Cymru** yn chwarae rôl hollbwysig o ran hyrwyddo arferion cynaliadwy yn niwydiant theatr Cymru. Bydd yr unigolyn a benodir yn hyrwyddo’r egwyddorion a amlinellir yn *Llyfr Gwyrdd y Theatr*—canllaw i theatr gynaliadwy—ar draws timau creadigol a gweithredol amrywiol.
Bydd gennych oddeutu dair blynedd o brofiad o weithio ym maes y celfyddydau perfformio, a gallech fod wedi gweithio mewn swyddi amrywiol, o swyddi cynhyrchu i swyddi

gweithrediadau ac adeiladau, neu hyd yn oed swyddi polisi. Byddwch yn mwynhau gweithio gydag amrywiaeth o bobl, a byddwch yn gweithio mewn ffordd gyfeillgar, cadarnhaol a rhagweithiol.

**Sgiliau a rhinweddau hanfodol**

1. **Angerdd dros gynaliadwyedd**
    - Ymrwymiad clir i gynaliadwyedd amgylcheddol, a chymhelliad i roi arferion sy'n ystyriol o'r amgylchedd ar waith.
    - Ymwybyddiaeth o'r heriau y mae'r celfyddydau a sectorau diwylliannol yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran cynaliadwyedd.

2. **Gwybodaeth am brosesau cynhyrchu'r theatr:**
    - Dealltwriaeth o brosesau'r theatr, gan gynnwys cynhyrchu, dylunio, gweithrediadau technegol, a gweinyddu.
    - Adnabyddiaeth fanwl o'r materion ymarferol sydd ynghlwm wrth roi arferion gwyrdd ar waith mewn cyd-destunau theatrig.

3. **Gwybodaeth am Lyfr Gwyrdd y Theatr:**
    - Adnabyddiaeth fanwl o ganllawiau ac egwyddorion *Llyfr Gwyrdd y Theatr,* gan gynnwys ei adrannau am gynyrchiadau, adeiladau, a gweithrediadau.

4. **Sgiliau rheoli prosiectau:**
    - Gallu a brofwyd i gynllunio, i gydgysylltu ac i gyflawni prosiectau yn unol ag amserlenni a chyllidebau penodedig.
    - Gallu i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng blaenoriaethau niferus, ac i reoli'r berthynas gymhleth rhwng rhanddeiliaid.

5. **Sgiliau cyfathrebu ac eirioli:**
    - Sgiliau cyfathrebu cadarn ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda'r gallu i ysbrydoli ac i addysgu cynulleidfaoedd amrywiol.
    - Hyder i hwyluso gweithdai, sesiynau hyfforddi, a chyflwyniadau.

6. **Dull cydweithredol o weithio:**
    - Gallu i gydweithio'n effeithiol ag artistiaid, technegwyr, rheolwyr lleoliadau a rhanddeiliaid cymunedol.
    - Profiad amlwg o feithrin diwylliant cydweithredol i gyflawni nodau cyffredin.

7. **Rheoli data ac effaith:**
    - Gallu i dracio metrigau cynaliadwyedd, eu mesur ac adrodd amdanynt, a gallu i werthuso effaith mentrau gwyrdd.

8. **Ymwybyddiaeth sefydliadol:**
    - Adnabyddiaeth fanwl o dirwedd theatr Cymru, gan gynnwys lleoliadau, cwmnïau a rhwydweithiau.
    - Dealltwriaeth o bolisïau ac ymrwymiadau amgylcheddol Cyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â strwythurau ariannu ar gyfer y celfyddydau.

**Sgiliau a phrofiad dymunol**

9. **Profiad o fentrau cynaliadwyedd:**
    - Profiad uniongyrchol o lunio a gweithredu polisïau neu brosiectau cynaliadwyedd, yn enwedig ym maes y celfyddydau.

10. **Sgiliau Cymraeg:**
    - Gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg, neu barodrwydd i gynnwys pob cymuned yng Nghymru ac i ymgysylltu â nhw.

---

**Rhinweddau personol**

- **Arweinyddiaeth:** Yn ennyn hyder ac yn ysgogi eraill i fabwysiadu arferion cynaliadwy.
- **Hyblygrwydd:** Yn gysurus yn gweithio mewn swydd ddynamig ac esblygol gydag arferion sy'n dod i'r amlwg.
- **Empathi a chynwysoldeb:** Yn dangos dealltwriaeth o safbwyntiau amrywiol ac yn meithrin amgylchedd gweithio cynhwysol.
- **Gwydnwch:** Yn benderfynol o hybu newid yn wyneb heriau, ac yn canolbwyntio ar wneud hynny.

---

Bydd y swydd hon yn allweddol i sicrhau bod cymuned theatr Cymru ar flaen y gad o ran arferion cynaliadwy, gan hybu newid amgylcheddol a chefnogi rhagoriaeth artistig ar yr un pryd. Bydd Hyrwyddwr Llyfr Gwydd y Theatr yn gweithredu fel tywysydd, addysgwr ac eiriolwr, gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn ennill ei blwyf wrth galon sector theatr bywiog Cymru.

**AMSERLEN**
Dyddiad cau: Dydd Llun 20 Ionawr
Dyddiadau'r cyfweliadau: Dydd Mercher 29 a dydd Iau 30 Ionawr
Rydym yn chwilio am rywun a fydd yn gallu gweithio yn y swydd o fis Chwefror.

**CEISIADAU**
Gofynnwn ichi e-bostio eich CV, llythyr sy'n egluro'ch profiad perthnasol (hyd at dair tudalen o hyd) ac unrhyw wybodaeth ategol yr hoffech ei chynnwys, ynghyd â manylion eich argaeledd, at yvonne@creucymru.com
Dylech nodi'r hyn y byddai angen inni ei ddarparu i'ch helpu i weithio ar eich gorau.